Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

Rhifyn 333 (Cymru) - 18 Tachwedd 2022

Deddf Etholiadau: diweddariad canllawiau

Yn dilyn Bwletin 332, rydym erbyn hyn wedi cyhoeddi canllawiau craidd newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi'r broses o wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr. Disgwyliwn y bydd yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2023.

Mae'r canllawiau'n ymdrin â'r gofynion i etholwyr wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr neu Ddogfen Etholwr Dienw, sut y dylech brosesu a phenderfynu ar geisiadau, a gwybodaeth am gynhyrchu a chyflwyno Tystysgrifau a Dogfennau.

Mae wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad agos â chydweithwyr ar draws y gymuned etholiadol, gan gynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA), Cymdeithas Aseswyr yr Alban (SAA), Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (Solace), yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweithgor Etholiadau, Cofrestru, a Refferenda (ERRWG).

Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'n canllawiau ystyriaethau cynllunio allweddol. Mae'r diweddariadau diweddaraf yn ymwneud â dyrannu etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio, ein hymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynhyrchu amlenni eglurhaol ar gyfer llythyrau cardiau pleidleisio.

Mae manylion llawn y newidiadau i'w gweld yn y log newidiadau ar ddechrau'r canllawiau. Byddwn yn parhau i adolygu'r canllawiau hyn wrth i ragor o fanylion am weithrediad y Ddeddf Etholiadau ddod i'r amlwg, a byddwn yn eich diweddaru drwy'r Bwletin pan wneir unrhyw ddiweddariadau pellach.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch ag infowales@electoralcommission.org.uk.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Deddf Etholiadau: diweddariad canllawiau

Gwybodaeth a dolen i'n canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar y broses ymgeisio am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr, yn ogystal â dolen i'n canllawiau ystyriaethau cynllunio allweddol wedi'u diweddaru.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

© Y Comisiwn Etholiadol 2022

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.